# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Ionawr 2002

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd caiff y fframwaith strategol ar gyfer y De-ddwyrain, y cyfeiriodd ato ar 3 Mai 2001 yn ystod ei ddatganiad ar Corus, ei gyhoeddi. (WAQ15421)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar Dasglu Dur Cymru Gyfan. (WAQ15422)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd bydd Tasglu Dur Cymru Gyfan yn cyflwyno adroddiad. (WAQ15423)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar bolisi'r Weinyddiaeth ar geisiadau am ffermydd gwynt ar dir. (WAQ15416)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfreithlondeb cyflwyno cais cynllunio ar dir a oedd yn destun ymchwiliad cyhoeddus o ganlyniad i broses y cynllun datblygu unedol (UDP). (WAQ15417)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa feini prawf y mae'n eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid galw cais cynllunio i mewn neu beidio. (WAQ15418)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa ymchwil y mae wedi'i chynnal i ddulliau eraill heblaw llosgi ar gyfer gwaredu gwastraff domestig. (WAQ15419)

**David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda swyddogion DEFRA ynghylch y penderfyniad i gymeradwyo fferm wynt Cefn Croes heb gyfeirio'r mater at y Cynulliad hwn. (WAQ15420)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A oes ganddi gynlluniau i gapio Awdurdodau Lleol sy'n

pennu mwy na 5% o gynnydd ar eu Treth Gyngor. (WAQ15410)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar gynnwys is-wardiau difreintiedig yn Sir Ddinbych yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (WAQ15411)

**David Davies (Mynwy);** Pa gyfleusterau sydd ar gael i awdurdodau lleol iddynt allu cyfieithu ffurflenni etholiadol swyddogol i'r Gymraeg. (WAQ15412)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u cael oddi wrth Bowys ynghylch setliadau Treth y Cyngor ers cychwyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ15413)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Chyngor Dinas Caerdydd ynghylch bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. (WAQ15414)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch cefnogi Mesur Tai (Cymru) i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth ar nifer o faterion ym maes tai. (WAQ15415)